Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Cefnfaes**

**Cylch Meithrin Cefnfaes**
**Plas Ffrancon**
**Ffordd Newydd Coetmor**
**Bangor**
**LL573DT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/10/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cylch Meithrin Cefnfaes

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Meithrin Cefnfaes |
| Lleoedd cofrestredig | 35 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Ailgofrestrwyd y lleoliad hwn fel Sefydliad Corfforedig Elusennol ar 5 Rhagfyr 2023. Dyma'r tro cyntaf i'r lleoliad gael ei arolygu o dan y cofrestriad newydd. |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff a gyda'i gilydd. Mae'r plant yn hyderus wrth wneud dewisiadau am y ffordd y maent yn treulio eu hamser ac maent yn mwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Maent yn hyderus wrth ofyn i'r staff am gymorth os bydd angen, ac maent yn gwybod y bydd eu dymuniadau a'u hanghenion unigol yn cael eu parchu gan y staff.

Mae'r staff yn deall eu cyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn darparu gofal ymatebol ac yn defnyddio dulliau cadarnhaol i annog y plant i ryngweithio'n dda â'i gilydd. Mae'r staff yn ystyried diddordebau unigol ac anghenion datblygiadol y plant wrth ddarparu gweithgareddau ac yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol i hybu dysgu a datblygiad y plant.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y safle yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae ganddynt systemau cadarn ar waith i fonitro a rheoli risgiau ynghyd â diogelwch tân yn effeithiol. Mae'r arweinwyr yn gwneud yr amgylchedd yn groesawgar i'r plant. Maent yn cynnig dewis eang o deganau a chyfarpar, gan gynnwys amrywiaeth dda o gyfleoedd i archwilio deunyddiau naturiol a bywyd go iawn. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd i archwilio teganau ac adnoddau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn gyfyngedig.

Mae'r arweinwyr yn deall eu cyfrifoldebau ac yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'r plant a'u teuluoedd. Mae ganddynt amrywiaeth o bolisïau ar waith i sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn dda a bod y staff yn deall eu rolau. Maent yn cefnogi'r staff yn dda ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd rheolaidd i drafod eu datblygiad proffesiynol, ond nid ydynt bob amser yn cadw cofnodion o gyfarfodydd goruchwylio staff. Mae'r arweinwyr wedi meithrin cydberthnasau addas â'r rhieni, gan sicrhau y rhoddir gwybodaeth iddynt am ddysgu a datblygiad eu plant.

## Llesiant — Da

Mae'r plant yn hapus ac wedi setlo. Maent yn symud yn rhydd o gwmpas yr ystafell chwarae ac yn penderfynu pa weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt. Maent yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn ymuno â gweithgareddau mwy strwythuredig, fel paentio, pan maent yn barod i wneud hynny. Mae'r plant wedi ffurfio cydberthnasau agos â'r staff ac yn teimlo'n hyderus i fynd atynt am dawelwch meddwl pan fydd ei angen arnynt, gan wybod y bydd yn cael ei roi'n ddi-oed. Maent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan fod y staff yn parchu pob ymgais ganddynt i gyfathrebu, ac yn gwrando'n astud ar yr hyn sydd gan y plant i'w ddweud. Er enghraifft, mae'r plant yn awyddus i rannu eu straeon â'r staff wrth iddynt eistedd i fwyta eu brecwast, ac yn gwenu wrth i'r staff ddangos brwdfrydedd gwych yn yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud.

Mae'r plant yn amlwg yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Maent yn hyderus i fynd at ymwelwyr i drafod yr hyn maent yn ei wneud. Maent yn hyderus i fynegi eu dymuniadau a'u hanghenion i'r staff ac yn gwybod y bydd eu dymuniadau'n cael eu parchu. Er enghraifft, mae'r plant yn hyderus wrth roi gwybod i'r staff eu bod yn barod i fwyta eu brecwast neu fyrbryd ac wrth ofyn am y teganau maent am eu cael. Mae bron pob un o'r plant yn awyddus i rannu eu cyflawniadau ac i gynnwys y staff yn eu chwarae gan eu bod yn gwybod y byddant yn ymateb yn frwdfrydig. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau adeiladu tŵr gydag aelod o'r staff gan ddefnyddio siapiau magnetig, gan gymeradwyo a chwerthin gyda'i gilydd wrth i'r tŵr ddisgyn.

Mae'r plant yn dechrau gwneud ffrindiau, ac yn datblygu ymwybyddiaeth o emosiynau ei gilydd. Er enghraifft, wrth i'r plant ddisgyn neu frifo eu hunain mae eu ffrindiau yn mynd atynt i'w cofleidio a'u helpu i wneud iddynt deimlo'n well. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac yn datblygu sgiliau cymdeithasol cadarnhaol. Maent yn rhannu adnoddau ac yn fodlon cymryd eu tro wrth gael eu hatgoffa'n ysgafn gan y staff; maent yn aros eu tro yn hapus i ddefnyddio'r llithren ac yn cymeradwyo wrth i'w ffrindiau gymryd eu tro.

Mae bron pob un o'r plant yn awyddus iawn i archwilio eu hamgylchedd ac maent yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael. Er enghraifft, caiff y plant hwyl yn arbrofi gyda thoes chwarae lliwiau'r hydref. Maent yn mwynhau creu patrymau yn y clai gan ddefnyddio brigau, moch coed a choncyrs. Maent yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau wrth gymryd rhan mewn tasgau anoddach. Er enghraifft, maent yn cael hwyl wrth ddefnyddio ffyn glud i greu gwaith celf gyda dail hydrefol, gan ddyfalbarhau wrth ddefnyddio'r ffyn glud er mwyn gludo'r dail yn llwyddiannus ar y papur. Gellir clywed llawer o chwerthin a sgwrsio hapus wrth i'r plant fwynhau'r gweithgareddau sydd ar gael iddynt ac wrth iddynt ddangos yn gyffrous i'r staff a'u ffrindiau beth roeddent yn ei wneud.

Caiff pob plentyn ei annog a'i gefnogi i wneud pethau drosto'i hun. Maent yn cwblhau tasgau hunanofal yn annibynnol, ac yn cael cymorth os bydd ei angen. Er enghraifft, maent yn paratoi eu powlenni o rawnfwyd eu hunain yn ystod amser brecwast ac yn helpu i dacluso eu powlenni a'u cwpanau ar ôl gorffen. Mae pob un o'r plant yn arwain ac yn cyfarwyddo eu chwarae ac yn dewis adnoddau fel y dymunant, gan fod y teganau a'r

gweithgareddau wedi'u gosod mewn ffordd sy'n galluogi'r plant i gael gafael arnynt yn hawdd ac yn annibynnol.

| Gofal a Datblygiad | Da |
|---|---|

Mae'r staff yn hyderus o ran eu dyletswyddau i ddiogelu plant; mae pob un ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac roeddent yn gallu ateb cwestiynau yn hyderus pan ofynnwyd iddynt am y camau cywir i'w dilyn os bydd ganddynt bryderon am blentyn. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn gwybod sut i adael yr adeilad yn gyflym ac yn ddiogel pe bai angen gwneud hynny, drwy gynnal ymarferion tân rheolaidd. Mae'r ymarferion hyn wedi'u dogfennu'n dda mewn cofnodlyfr penodol. Mae nifer o'r staff yn meddu ar dystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig cyfredol a chaiff unrhyw ddamweiniau neu ddigwyddiadau eu cofnodi'n effeithiol a'u rhannu â'r rhieni yn brydlon.

Mae'r staff yn annog ffyrdd iach o fyw drwy ddarparu digon o gyfleoedd i'r plant wneud ymarfer corff a threulio amser allan yn yr awyr iach. Maent yn hyrwyddo hylendid da, gan annog a chefnogi pob un o'r plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen. Maent yn dilyn arferion glanhau effeithiol ac yn defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) er mwyn helpu i atal germau rhag lledaenu. Mae amrywiaeth o frecwast a byrbrydau iach ar gael i'r plant ac mae systemau effeithlon ar waith i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o ofynion deietegol unigol y plant.

Mae'r staff yn siarad mewn ffordd gynnes a charedig â'r plant. Maent yn garedig, yn rhoi cysur a thawelwch meddwl pan fydd eu hangen ar y plant ac yn eu trin â pharch. Maent yn annog rhyngweithio cadarnhaol gan ddefnyddio strategaethau cadarnhaol ac effeithiol iawn. Mae'r staff yn dangos enghreifftiau o ryngweithio cadarnhaol drwy gydol y dydd, gan roi cyfarwyddiadau clir wrth esbonio i'r plant pan nad yw eu hymddygiad yn briodol. Er enghraifft, pan nad yw'r plant yn dymuno rhannu teganau, mae'r staff yn esbonio'n glir y gall pawb ddefnyddio'r teganau. Maent yn cefnogi'r plant i ofyn am y teganau mewn ffordd gwrtais ac i gymryd eu tro, gan eu llongyfarch wrth iddynt wneud hyn yn effeithiol. Rhoddir digon o ganmoliaeth am ddilyn cyfarwyddiadau, dangos caredigrwydd a chwblhau gweithgareddau hefyd.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb yn effeithiol i'w hanghenion unigol. Gofynnir am fanylion cynhwysfawr am ddewisiadau ac anghenion unigol y plant cyn iddynt ddechrau a defnyddir y wybodaeth hon i gynllunio amrywiaeth o weithgareddau a phrofiadau ysgogol i'r plant. Mae'r staff yn cynnal arsylwadau ac asesiadau rheolaidd ar bob un o'r plant a chedwir gwybodaeth yn deillio o'r arsylwadau a'r asesiadau hyn yng nghofnodion dysgu unigol y plant a chânt eu defnyddio i gynllunio eu camau dysgu nesaf. Caiff ffotograffau a samplau o waith y plant eu casglu i greu llyfrau unigol er mwyn dangos cynnydd y plant drwy gydol y flwyddyn. Mae'r staff hefyd yn casglu fideos a ffotograffau i greu montage a gaiff ei rannu â'r rhieni yn ystod seremoni arbennig i ddathlu cyflawniadau'r plant. Mae gan y staff weithdrefnau effeithiol ar waith i geisio a darparu cymorth i blant ag anghenion ychwanegol. Maent yn cofnodi arsylwadau ac yn nodi unrhyw bryderon yn ffeiliau unigol y plant, ac maent yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol i sicrhau bod y plant yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

## Yr Amgylchedd | Da

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch y plant ac yn sicrhau bod y staff yn dilyn gweithdrefnau yn effeithiol i ddiogelu'r plant. Er enghraifft, mae'r staff yn gofyn i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd ac maent yn sicrhau bod y safle, gan gynnwys yr ardaloedd awyr agored yn ddiogel. Mae hyn yn atal unrhyw fynediad heb awdurdod i'r safle. Mae'r staff yn cadw cofrestr gywir o bresenoldeb y plant. Er nad oedd y cofnodion hyn yn cynnwys amseroedd cyrraedd y gadael pob plentyn i ddechrau, cawsant eu diweddaru ar unwaith i gynnwys y wybodaeth hon. Mae gan yr arweinwyr asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr ar waith. Mae'r rhain yn amlinellu unrhyw risgiau posibl i ddiogelwch y plant a'r camau a gymerwyd i reoli neu ddileu'r risgiau hyn. Caiff y dogfennau hyn eu hadolygu'n rheolaidd a chaiff unrhyw gamau gweithredu gofynnol eu cwblhau'n brydlon, gan sicrhau y caiff yr holl beryglon posibl eu monitro a'u rheoli'n effeithiol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod pob ardal a ddefnyddir gan y plant yn cynnwys digon o le, yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda ac yn groesawgar. Mae'r ystafell chwarae wedi'i threfnu'n dda a'i haddurno'n ddeniadol mewn lliwiau niwtral a gyda deunyddiau naturiol lle y bo'n bosibl. Er enghraifft, mae pwyslais ar ddefnyddio teganau pren, deunyddiau naturiol ar gyfer adeiladu, eitemau go iawn yn yr ardaloedd chwarae rôl a basgedi o wiail i storio teganau. Mae'r teganau a'r adnoddau yn cael eu cadw'n drefnus mewn blychau a chânt eu storio ar lefel isel fel y gall y plant ddewis ohonynt yn annibynnol. Mae'r ardal chwarae awyr agored yn darparu amrywiaeth dda o gyfleoedd i'r plant archwilio a chwarae er mwyn datblygu eu dychymyg a'u dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, ardal chwarae dŵr, cyfarpar dringo, cegin fwd, ardaloedd gwneud marciau ac ardal adeiladu. Er bod rhai teganau ac adnoddau ar gael sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol, caiff y rhain eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau dan arweiniad oedolion a gweithgareddau â ffocws penodol ar hyn o bryd. Mae'r dewis o'r adnoddau hyn sydd ar gael i'r plant ei archwilio'n rhydd yn fwy cyfyngedig ar hyd o bryd.

Mae'r arweinwyr yn darparu amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau sydd mewn cyflwr da ac sy'n briodol ar gyfer oedrannau a chamau datblygu'r plant. Maent yn drefnus ac yn cael eu glanhau'n rheolaidd, ac mae'r staff yn cadw cofnodion cywir sy'n nodi pan fydd hyn yn digwydd. Mae'r celfi a'r cyfarpar wedi cael ystyriaeth ofalus ac maent o faint addas ar gyfer oedrannau'r plant a fydd yn eu defnyddio. Mae'r toiledau yn cynnwys cyfleusterau addas, gyda sinciau a thoiledau isel i hyrwyddo annibyniaeth y plant. Mae'r holl weithgareddau a'r profiadau dysgu wedi cael eu gosod yn effeithiol, sy'n sicrhau bod y plant yn gallu gwneud dewisiadau yn rhydd a dilyn eu diddordebau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae'r arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad â'r staff ac mae ganddynt amrywiaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, sy'n cyfrannu'n effeithiol at redeg y Cylch yn hwylus. Maent yn adolygu'r polisïau yn rheolaidd, gan sicrhau eu bod yn gyfredol a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y datganiad o ddiben yn rhoi disgrifiad clir a chywir o'r gwasanaeth a gynigir. Mae hyn yn golygu y gall rhieni wneud penderfyniad gwybodus o ran p'un a yw'r lleoliad yn diwallu eu hanghenion nhw a'u plentyn ai peidio.

Mae gan yr arweinwyr drefniadau cadarn ar waith i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella. Maent yn gofyn yn rheolaidd am adborth ar lafar gan y rhieni yn ogystal â thrwy anfon holiaduron adborth at y rhieni a'r staff. Caiff safbwyntiau'r plant eu ceisio hefyd drwy siarad â nhw am eu diddordebau a chynnal arsylwadau dyddiol. Mae'r arweinwyr yn llunio adroddiad mewn ymateb i'r adborth a gafwyd, yn nodi unrhyw welliannau a wnaed a'r rhai a gynllunnir ar gyfer y dyfodol.

Mae gan yr arweinwyr systemau effeithiol ar waith i sicrhau bod digon o staff yn bresennol bob amser i oruchwylio'r plant yn dda ac i gwblhau tasgau cyffredinol yn effeithiol. Maent yn sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio cadarn ar waith er mwyn diogelu'r plant. Roedd ffeiliau'r staff yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Dywedodd y staff wrthym y gallant fynd at yr arweinwyr ar unrhyw adeg i drafod unrhyw broblemau neu eu hanghenion hyfforddiant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cael cyfleoedd rheolaidd i ymgymryd â chyfarfodydd goruchwylio unigol. Fodd bynnag, nid yw'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cofnodi bob amser.

Mae gan yr arweinwyr systemau effeithiol ar waith i gyfathrebu â'r rhieni, gan eu hysbysu'n rheolaidd am amser eu plentyn yn y lleoliad. Caiff dyddiaduron dyddiol eu cwblhau sy'n cynnwys manylion am amser pob plentyn yn y lleoliad a defnyddir tudalen gaeëdig ar y cyfryngau cymdeithasol i rannu ffotograffau a gwybodaeth. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd i'r rhieni ymweld â'r lleoliad i drafod cynnydd eu plentyn. Roedd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y lleoliad yn fawr, gan ddatgan bod y staff yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt, a bod y lleoliad yn hyblyg a chefnogol iawn i'w hanghenion unigol. Mae'r arweinwyr wedi sefydlu cysylltiadau cadarn â'r ganolfan hamdden lle mae'r lleoliad wedi'i leoli. Mae hyn yn eu galluogi i drefnu cyfleoedd rheolaidd i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon, yn ogystal â phrosiectau cymunedol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 13 (Gofal Dydd) – Person Addas | Cadw cofnod ffurfiol o gyfarfodydd goruchwylio un i un er mwyn monitro ymarfer a gofynion hyfforddiant y staff yn fwy effeithiol. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Darparu mwy o gyfleoedd i'r plant archwilio adnoddau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol wrth archwilio'r amgylchedd yn annibynnol. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 25/11/2024